


Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbyrdoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w lyfr diweddaraf, beth sy'n ei ysbyrdoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Haf Llewelyn



Mae Haf Llewelyn yn awdures nofelau i oedolion ac i blant, ac yn barddoni. Enillodd ei nofel *Diffodd y Sêr* wobr Tir na n-Og yn 2014. Mae'n byw yn Llanuwchllyn.



Crynodeb:

Mae'r nofel wedi ei gosod yn ystod gaeaf garw 1981, cyfnod pan roedd prisiau tai yn codi a phobl ifanc ardaloedd gwledig Cymru yn methu prynu tai yn eu bröydd - nofel sy'n parhau'n berthnasol i broblemau Cymru heddiw. Cwpwl ifanc yw Dafydd a Llinos, ac maen nhw'n gobeithio cael symud i fyw yn fuan i hen gartref Nain - Ty'n Drain. Dyna ddymuniad Dafydd a'i nain. Ond mae ewythr i Dafydd yn awyddus i werthu Ty'n Drain fel tŷ haf. Mae tensignau'n codi, ac ynghanol ymgyrch losgi Meibion Glyndŵr mae cyhuddiadau'n cael eu taflu, ac yn sydyn mae Dafydd mewn helynt.

Beth wnaeth eich ysbyrdoli i ysgrifennu *Ga i Fyw Adra?*

Dw i'n ddigon hen i gofio'r cyfnod ar ddechrau'r 1980egau yn weddol dda, roeddwn i'n Ysgol Ardudwy, Harlech, ac roedd yr hanes am y llosgi yn creu cryn gynnwrf ar y pryd. Ond ddegawdau'n ddiweddarach, mae pobl ifanc yn dal i fethu fforddio prynu neu hyd yn oed rentu tai yn eu cymunedau. Mae'r broblem yn parhau, ac os rhywbeth yn mynd yn waeth, gyda thai yn cael eu prynu bellach mewn pentrefi a stadau tai, gyda'r bwriad o'u gosod fel tai gwyliau.

Beth ydych chi'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ei gael o'r stori hon?

Dw i'n gobeithio y byddan nhw'n teimlo empathi a chydymdeimlad gyda'r holl gymeriadau. Mae bob amser ddwy ochr i bob dadl, ond dwi'n gobeithio y bydd y darllenydd yn gweld annhegwch ambell i sefyllfa. Dw i hefyd yn gobeithio y bydd y darllenydd yn mwynhau cael cipolwg i gyfnod o hanes, sydd heb fod yn rhy bell yn ôl, a sylweddoli er bod ambell beth, fel technoleg wedi newid, yn y bôn yr un teimladau a'r un ofnau a phroblemau sy'n bodoli o hyd.

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau er mwyn annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Mae yna gymaint o bethau eraill i gymryd sylw plant a phobl ifanc, ac mae'n hynod bwysig fod llyfrau yn mynd law yn llaw â technoleg. Ond wrth gwrs os ydych chi fel fi - does dim byd gwell nac ymlacio mewn cadair esmwyth i ddarllen llyfr, a throi'r tudalennau. Mae cael corneli bach cudd mewn llyfrgelloedd, ysgolion a chartrefi yn syniad da. Ond y peth pwysicaf oll ydy darllen i blant pan maen nhw'n fach iawn a pharhau i ddweud a darllen storiâu iddyn nhw, hyd yn oed pan maen nhw'n medru darllen eu hunain. Mae pawb yn hoffi clywed stori.



Gwasg Carreg Gwalch www.carreg-gwalch.cymru



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru